**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**10 TACHWEDD 2021**

**Adroddiad gan:** **Arwyn Thomas - Rheolwr Gyfarwyddwr GwE**

**Pwnc:** **Grant Datblygu Disgyblion 2021-22**

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Rhoi diweddariad i'r Cyd-bwyllgor ar y Cynllun Cymorth Grant Datblygu Disgyblion am 2021/22 ar draws y rhanbarth.

## 2.0 Cefndir

2.1 Pwrpas y cyllid GDD yw cael effaith hirdymor ar ddeilliannau plant difreintiedig. Y Consortia sydd yn gyfrifol am sicrhau bod y grant yn cael ei ddefnyddio i'r dibenion y bwriedir y grant ar ei gyfer, a GwE sydd yn gyfrifol am ddatblygu a monitro Cynllun Cymorth y Grant Datblygu Disgyblion (GDD).

2.2 Mae dyraniad GwE yn seiliedig ar ddata CYBLD am 2020 gan ddefnyddio grwpiau blwyddyn. Am 2021/22:

| | **Nifer y dysgwyr cymwys** | **Dyraniad £** |
|---|---|---|
| Dysgwyr sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim (PYD) | 14,969 | 17,214,350 |
| Dysgwyr mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar (GDDBC) | 2,754 | 3,167,100 |
| Dysgwyr sydd â'r hawl i brydau ysgol mewn UCD ac mewn Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS). | 129 | 148,350 |
| Plant Mewn Gofal 3 i 15 oed | 986 | 1,133,900 |

2.3 Mae gwybodaeth fanwl am yr arian uchod wedi'i chynnwys yn y cynllun cymorth blynyddol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Dyrennir yr holl gyllid yn uniongyrchol i ysgolion/lleoliadau; er hynny, mae'r GDD PMG yn fodel ariannu a arweinir gan y consortia.

2.4 Mae person arweiniol (ymgynghorydd strategol) o fewn y consortia sydd yn gyfrifol am y Cynllun Cymorth GDD o ran cefnogi ysgolion a'r cyswllt efo'r grŵp GDD cenedlaethol gyda LlC.

3.0 **Ystyriaethau**

3.1 **GDD PYD:**

Parhau i weithredu'r cynllun cymorth blynyddol ar gyfer 2021-22 ar draws y rhanbarth. Canolbwyntir yn bennaf ar gefnogi ysgolion/lleoliadau i gynllunio eu GDD o gwmpas dysgu ac addysgu effeithiol.

3.2 Sicrhau bod dangosfwrdd y grantiau Rhanbarthol ac Ysgol yn cael ei gwblhau gan bob ysgol/lleoliad i gynllunio eu defnydd o'r prif grantiau (uchod) yn ystod y flwyddyn ariannol hon h.y. Y Blynyddoedd Cynnar/PYD/Addysg Heblaw yn yr Ysgol/PMG.

3.3 Cyflwyno'r canllawiau i ysgolion/lleoliadau o ran defnyddio'r GDD a chymorth i ddysgwyr bregus.

3.4 Sicrhau y caiff y cynllun cymorth ei fonitro pob chwarter gydag enghreifftiau o effaith.

3.5 **Arian a arweinir gan y consortia:**

Am yr ail flwyddyn, bydd GwE yn cael arian a arweinir gan y Consortia i gefnogi ysgolion sydd angen cymorth ychwanegol ar gyfer eu dysgwyr difreintiedig. Bydd y pwyslais ar ddysgu ac addysgu, targedu cynhaliaeth ac ymgysylltu â'r gymuned ehangach.

3.6. **Dyraniad GDD PMG 2020/21**

Cynigiwn barhau i ddosbarthu cyllideb y grant o £1,133.900 drwy'r model clwstwr rhanbarthol, yr elfen bwrsari unigol a datblygiad proffesiynol - yn unol â Thelerau ac Amodau Llywodraeth Cymru.

3.7 Bydd gan bob clwstwr fynediad at gyllid a chymorth ar draws y rhanbarth i sicrhau tegwch o ran cynnig a chymorth.

3.8 Mae GwE wedi parhau i ddefnyddio data gwasanaethau plant/data CYBLD i adnabod a dyrannu cyllid i bob clwstwr ar sail £1050 i bob dysgwr y gofelir amdano. Nid yw'r data yn cynnwys plant a arferai dderbyn gofal. Mae gan bob clwstwr ar draws y rhanbarth blant sydd mewn gofal.

3.9 Mae'r dangosfwrdd GDD Clwstwr Rhanbarthol yno i helpu ysgolion/clystyrau i gynllunio'r grant. Mae'n rhoi modd hefyd i GwE a'r ALl fonitro a gwerthuso'r cynlluniau.

3.10 Mae cyfeiriadur diweddar ar gael o'r cymorth cyffredinol a phenodol sydd ar gael i glystyrau, sydd yn seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth.

3.11 Mae llinellau atebolrwydd clir a chaiff effaith y GDD ei fonitro drwy gylch arfarnu blynyddol a rhennir adnoddau efo ysgolion/lleoliadau ar arferion effeithiol.

3.12 **<u>Lles:</u>**
Yn ystod 2021/22, mae GwE wedi nodi'r trefniadau yn y cynllun cymorth ar gyfer cynllunio a darparu cymorth i blant o safbwynt lles, yn nodi sut rydym ni'n bwriadu gweithio gyda phartneriaid ar y cynigion hyn, o safbwynt y dull gweithredu ysgol gyfan gyda llesiant emosiynol a meddyliol.

## 4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.

## 5.0 Goblygiadau Ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

5.2 Nodir dyraniad GwE am 2021/2022 yn seiliedig ar ddata CYBLD am 2020 gan ddefnyddio grwpiau blwyddyn yn adran 2.2 yr adroddiad.

## 6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

## 7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

## 8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

8.1 Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol (Gwasanaethau Plant ac Addysg) a Bwrdd Rheoli GwE.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 - Canllawiau rhanbarthol i sefydliadau addysgol yng ngogledd Cymru ar weithredu'r GDD (Grant Datblygu Disgyblion) .

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Cadarnhaf y ffigyrau ariannol sydd ar yn rhan 2.2 o'r adroddiad.